

Yn ystod yr wythnos hefyd...

Bydd yr Ysgol Hanes yn casglu atgofion melys cyn-fyfyrrwyr a staff am eu profiadau ym Mhrifysgol Bangor yn ystod yr wythnos. Mae hyn yn ran o brosiect hanes llafar 'Straeon Bangor'.




Bydd peintio wynebau, tatws a lliwio gyda'r Ysgol Addysg dydd Llun, Mawrth, Iau a Gwener ar stondin y Brifysgol.

Bob dydd yn y Pafiliwn Gwyddoniaeth bydd yr Ysgol Cerddoriaeth (mewn cydweithrediad â chwmni Techniquist, Caerdydd) yn cynnal arddangosfa sy'n profi'r cyswllt agos sydd rhwng cerddoriaeth a'r byd gwyddonol. Cewch glywed offerynnwr yn arddangos ei ddawn a mwynhau cyngerdd byw gan Ensemble Cymru – ensemble preswyl y Brifysgol. Addas i blant o bob oed.

Yn y Pafiliwn Gwyddoniaeth bydd yr Ysgol Cemeg yn cynnal gweithgareddau gwyddonol drwy'r wythnos.



Dilynwch ddigwyddiadau Prifysgol Bangor yn yr Eisteddfod drwy'r wythnos

-  PrifysgolBangor / BangorUni
-  @prifysgolbangor / @BangorUni
-  prifysgolbangoruniversity



PRIFYSGOL BANGOR YN YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL 2015 AMSERLEN GWEITHGAREDDAU



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

**DYDD
SUL,
AWST 2**

3.00pm Cyfle i hel atgofion am y diweddar Athro John Rowlands yn syth ar ôl cyfarfod i ddathlu ei fywyd a'i waith yn y Babell Lân (2.15pm-3.00pm) a drefnir gan Yr Athro Angharad Price a'r Athro Gerwyn Williams o'r Ysgol Gymraeg.

**DYDD
LLUN,
AWST 3**

11.00am Dementia a'r Dychymyg. Astudiaeth o effaith rhaglen celfyddydol wythnosol er lles pobl sydd yn byw gyda dementia.

Siân Prydderch Fitzgerald, Swyddog Celfyddydau, Sir Ddinbych a Catrin Hedd Jones, Sefydliad Ymchwil Gofal Meddygol a Chymdeithasol, Prifysgol Bangor.

11.00am Lansiad prosiect adnoddau digidol ar yr Oesoedd Canol gydag arweiniad gan yr Ysgol Hanes, Hanes Cymru ac Archaeoleg, Prifysgol Bangor (ar stondin y Coleg Cymraeg Cenedlaethol).

12.30pm Lansio llyfr Aled Lewis Evans - 'Llwybrau Llonyddwch.' Casgliad o ysgrifau taith cyfoes, a theithiau cerdded myfyrgar i fannau ysbrydoledig o heddwch a thangnefedd ym mhob rhan o Gymru. (Gwasg Gomer).

2.30pm Te parti i ddathlu 150 mlwyddiant y Wladfa Gymreig ym Mhatagonia. Mae gan yr Adran Archifau a Chasgliadau Arbennig arddangosfa arbennig yn y Brifysgol o ddogfennau sy'n olrhain hanes y Wladfa. Bydd yr achlysur yma'n gyfle i chi glywed am gynnwys yr arddangosfa ac i flasu un o draddodiadau poblogaidd Patagonia, sef "te bach".

4.00pm 'Arloesi ar gyfer Technolegau Iaith a'r Cyfryngau Digidol'. Dewch i weld y datblygiadau diweddaraf yng ngwaith yr Uned Technolegau Iaith. Bydd y sesiwn yn cynnwys:

- Diweddiariad o'r Ap Geiriaduron sydd yn awr yn gallu dangos diffiniadau, lluniau a diagramau
- Labeli Cymraeg meddyginiaethau ar gyfer fferyllwyr
- Dathlu enillwyr cyntaf y Dystysgrif Ôl-radd mewn Astudiaethau a Thechnolegau Cyfieithu
- Arddangosiad o system rheoli a darparu cyfieithu Cyfieithu Cymru
- Lansio project newydd Seilwaith Cyfathrebu Cymraeg (noddwyd gan Lywodraeth Cymru).

**DYDD
MAWRTH,
AWST 4****BARN**

12.45pm Darlith Cylchgrawn BARN. 'Dyfodol darlledu yng Nghymru.' Y Bargyfreithiwr Gwion Lewis.

Bydd derbynriad i ddilyn.

**3.00pm Gofalu am gymunedau gwledig Cymraeg.**

Trafodaeth ynglŷn a sicrhau cynnal gofal yng nghanol llymder ariannol. Beth fydd rôl 'cymunedau' wrth datblygu gofal ar gyfer y degawdau nesaf?

Shan Ashton, Pennaeth yr Ysgol Addysg Gydol Oes, Prifysgol Bangor, Gwenan Prysor, Cyfarwyddwr Gwaith Cymdeithasol, Ysgol Gwyddorau Cymdeithas, Prifysgol Bangor. Cadeirydd y drafodaeth yw Dafydd Huws.

**DYDD
MERCHER,
AWST 5**

11.00am Eco Amgueddfa: Sut i fanteisio ar dechnoleg digidol i ddatblygu prosiectau. Gwenan Griffith, Swyddog Datblygu Prosiect #Ecoamgueddfa.

**12.45pm 'Dolobran a'i debyg: colli ac ailganfod plasau Cymru.'**

Darlith Ystadau Cymru – Yr Athro Prys Morgan, Sefydliad Ymchwil i Ystadau Cymru (ISWE). Llywydd y sefydliad yw Is-Ganghellor Prifysgol Bangor, Yr Athro John G Hughes.

2.00pm Aduniad Prifysgol Bangor. Cyfle i gwrdd â chyn-fyfyrwyr a chyfeillion y Brifysgol. Bydd lluniaeth ysgafn ar gael.



Aduniad Prifysgol Bangor



Aduniad Prifysgol Bangor

**DYDD
IAU,
AWST 6****CERDD IAU****11.00am Dosbarth canu pop yng nghwmni Gethin Griffiths ac Ifan Davies.**

Sêr Cân i Gymru (S4C) yn rhannu cyfrinachau canu a chyfansoddi pop. Dewch yn llw!

**12.00pm Lansiad gwobrau MUSICA –**

Cyfes newydd o wobrau ar gyfer disgyblion Ysgolion Uwchradd sy'n astudio Cerddoriaeth Lefel A gyda'r gantores Sian James.

1.30pm Dosbarth Meistr Telyn gyda Elinor Bennett. Noddir gan Ganolfan Gerdd William Mathias.

2.30pm Perfformiad byw gan Gwyneth Glyn. Y bardd, yr awdures a'r cerddor yn perfformio rhai o'i chaneuon diweddaraf.

3.45pm Trafodaeth: A oes dyfodol i'r wasg gerddorol Gymraeg?

Cyfraniadau gan unigolion sydd wedi cynnal y wasg gerddorol dros y 40 mlynedd diwethaf. Ymhle mae'r wasg gerddorol wedi bod? I ble mae hi'n mynd?

Cadeirydd: Huw Stephens (Radio 1).




Huw Stephens

**DYDD
GWENER
AWST 7****11.00am Corneli Cudd: Trafod cerdd a dementia.**

Sut y mae Pontio wedi cynnig profiadau arbennig i bobl sydd yn byw gyda dementia, eu gofalwyr, pobl ifanc a myfyrwyr a sut fydd y gwaith yma yn ehangu wedi i'r Ganolfan agor ei drysau.

Dr Gwawr Ifan, darlithydd Cerddoriaeth mewn lechyd a Lles ym Mhrifysgol Bangor, y cerddor Manon Llwyd a Chyfarwyddwraig Artistig Pontio, Elen ap Robert.

1.30pm Y Galw yn canu'n fyw ar y stondin.



2.30pm Swnami yn canu'n fyw ar y stondin.

3.30pm Cyflwyniad am waith Undeb Myfyrwyr Prifysgol Bangor ac UMCB yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Fflur Elin, Llywydd yr Undeb Myfyrwyr ac Ifan James, Llywydd UMCB.



Swnami

